Cyllid ôl-raddedig
Doethuriaeth

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Ffurflen Newid mewn Amgylchiadau

**Am y ffurflen hon**

Dim ond os ydych chi wedi gwneud cais llwyddiannus am Fenthyciad Ôl-raddedig ac mae'ch gwybodaeth wedi newid y dylech chi lenwi'r ffurflen hon. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym am unrhyw newidiadau cyn gynted ag y bo modd. Mae angen i'ch manylion gynrychioli'ch sefyllfa ddiweddaraf, fel bod modd i ni gysylltu â chi a sicrhau eich bod yn cael y cyllid cywir.

**Sut i lenwi'r ffurflen hon**

Dilynwch y cyfarwyddiadau, a byddwn yn dweud wrthych pa gwestiynau y bydd angen i chi eu hateb a pha rai y gallwch eu hanwybyddu. Mae angen i chi ateb yr holl gwestiynau y gofynnir i chi eu hateb. Gallai unrhyw wybodaeth sydd ar goll effeithio ar eich cyllid i fyfyrwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y rhestr gyfeirio yn Adran 9 cyn dychwelyd eich ffurflen.
Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais.

**Eich manylion**

Cyfeirnod Cwsmer ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Enw Llawn ____________________

## Adran 1 Y newid yn eich amgylchiadau

**1.1 Beth sydd wedi newid?**

Os oes mwy nag un o'ch amgylchiadau wedi newid, efallai y bydd angen i chi lenwi adrannau lluosog o'r ffurflen hon.

☐ Fy manylion personol – **Dylech lenwi Adran 2**

Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i'ch:
- teitl
- eich enw
- eich rhyw

☐ Fy manylion cyswllt – **Dylech lenwi Adran 3**

Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i'ch:
- rhifau ffôn
- cyfeiriad(au) eich cartref neu'ch cyfeiriad(au) cyswalt
- eich cyfeiriad e-bost
- eich cysylltiadau ychwanegol

☐ Fy manylion talu – **Dylech lenwi Adran 4**

☐ Manylion fy nghwrs – **Dylech lenwi Adran 5**

Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i:
- fanylion eich prifysgol
- enw/math eich cwrs
- dyddiad cychwyn eich cwrs
- hyd eich cwrs
- unrhyw gyllid arall

☐ Rydw i wedi gadael fy nghwrs – **Dylech lenwi Adran 6**

☐ Hoffwn newid y swm yr wyf yn ei fenthyca – **Dylech lenwi Adran 7**

☐ Mae fy amgylchiadau wedi newid mewn ffordd na chaiff ei nodi yn y ffurflen hon – **Dylech lenwi Adran 8**

# **Adran 2** Newidiadau i'ch manylion personol

### 2.1 Rhowch eich gwybodaeth newydd i ni

Os yw'ch enw wedi newid, mae angen i chi anfon un o'r canlynol atom:

- eich gweithred newid enw; neu'ch
- tystysgrif priodas neu'ch dogfennaeth partneriaeth sifil; neu'ch
- tystysgrif ysgaru neu'ch gorchymyn diddymu; neu
- eich amodol neu gorchymyn terfynol.

Teitl

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Mx

☐ Doctor ☐ Yr Athro

Enw(au) cyntaf

Cyfenw/enw teuluol

Rhyw

☐ Gwryw ☐ Benyw

**Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni am eich holl newidiadau.**

Nawr mae angen i chi ddarllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalen 10 cyn dychwelyd eich ffurflen.

**Os oes gennych chi ragor o newidiadau i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae angen i chi gwblhau'r adran arall (neu'r adrannau eraill) a nodoch yn Adran 1 cyn cwblhau'r amodau a thelerau.

## Adran 3 Newidiadau i'ch manylion cyswllt

**3.1 A yw'ch rhif(au) ffôn neu'ch cyfeiriad e-bost wedi newid?**

☐ Nac ydy/nac ydynt – ewch i **3.2**

☐ Ydy/ydynt – nodwch y manylion

Rhif ffôn y cartref

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

**3.2 A yw eich cyfeiriad cyswllt yn wahanol?**

Os byddwch yn nodi cyfeiriad cyswllt, i'r cyfeiriad hwnnw y byddwn yn anfon pob gohebiaeth.

Gallwch ddiweddaru'ch cyfeiriad(au) ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein neu trwy'n ffonio.

☐ Na fyddaf – ewch i **3.4**

☐ Byddaf – nodwch eich cyfeiriad cyswalt

Cod post

# Adran 3 Newidiadau i'ch manylion cyswllt (parhad)

**3.3 A ydych chi'n dymuno diweddaru manylion eich cysylltiadau ychwanegol?**

Os byddwn yn colli cysylltiad â chi, dim ond er mwyn ceisio cysylltu â chi unwaith eto y byddwn yn defnyddio'u manylion nhw, dim byd arall.

Trwy nodi'r manylion hyn, rydych yn cadarnhau eich bod wedi dweud wrthynt am hyn a'u bod yn fodlon i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gysylltu â nhw yn ôl yr angen.

Caiff **Cyswllt** 1 fyw yn yr un cyfeiriad â chi.

Ni chaiff **Cyswllt 2** fyw yn yr un cyfeiriad â chi na chyswllt 1.

☐ Nac ydw

☐ Ydw – nodwch y wybodaeth isod

**Cyswllt 1**

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Eu perthynas â chi

Cyfeiriad

Cod post

**Cyswllt 2**

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Eu perthynas â chi

Cyfeiriad

Cod post

**Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni am eich holl newidiadau.**

Nawr mae angen i chi ddarllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalen 10 cyn dychwelyd eich ffurflen.

**Os oes gennych chi ragor o newidiadau i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae angen i chi gwblhau'r adran arall (neu'r adrannau eraill) a nodoch yn Adran 1 cyn cwblhau'r amodau a thelerau.

# **Adran 4** Newidiadau i'ch manylion talu

**4.1 Rhowch eich gwybodaeth newydd am eich banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU**

Rhaid bod hwn yn gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU yn eich enw chi (nid cyfrif ar y cyd) ac mae'n rhaid bod modd iddo dderbyn credydau uniongyrchol.

Sylwer y bydd nodi manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu anghywir yn arwain at oedi gyda thaliadau'ch benthyciad.

Cod didoli

☐☐-☐☐-☐☐

Rhif y Cyfrif

☐☐☐☐☐☐☐☐

Cofrestrif Cymdeithas Adeiladu (os yn berthnasol)

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

**Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni am eich holl newidiadau.**

Nawr mae angen i chi ddarllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalen 10 cyn dychwelyd eich ffurflen.

**Os oes gennych chi ragor o newidiadau i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae angen i chi gwblhau'r adran arall (neu'r adrannau eraill) a nodoch yn Adran 1 cyn cwblhau'r amodau a thelerau.

# Adran 5 Newidiadau i fanylion eich cwrs

! Os ydych chi eisoes wedi derbyn eich taliad cyntaf, cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg a gofyn iddynt ein cynghori am eich trosglwyddiad.

**5.1 Pryd ddigwyddodd y newid hwn?**

Os nad yw'r newid wedi digwydd eto, dywedwch wrthym pryd y bydd yn digwydd.

Diwrnod Mis Blwyddyn

☐ ☐ / ☐ ☐ / ☐ ☐ ☐ ☐

**5.2 Fyddwch chi'n cychwyn cwrs newydd?**

☐ Na - ewch i **5.4**

☐ Byddaf

**5.3 Rhowch wybodaeth eich cwrs doethuriaeth llawn newydd i ni**

Gan fod angen i'ch prifysgol neu goleg gadarnhau'r newid hwn i ni, a fyddech gystal â sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newid uchod yn eich amgylchiadau.

Enw'r brifysgol

Cyfeiriad y brifysgol

Enw'r campws/lleoliad

Enw'r cwrs

Dyddiad cychwyn blwyddyn gyntaf eich cwrs newydd

Mis Blwyddyn

☐ ☐ / ☐ ☐

**5.4 Am ba mor hir fydd eich cwrs newydd yn para?**

Bydd hyd eich cwrs yn effeithio ar eich taliadau, felly dylech sicrhau eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni os bydd hyn yn newid.

☐ 3 blynedd

☐ 4 blynedd

☐ 5 mlynedd

☐ 6 blynedd

☐ 7 mlynedd

☐ 8 mlynedd

## Adran 5 Newidiadau i fanylion eich cwrs (parhad)

**5.5 A ydych chi'n gymwys i ymgeisio am fwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol?**

- ☐ Nac ydw
- ☐ Ydw – a ydych chi wedi gwneud cais a chael eich gwrthod?
  - ☐ Nac ydw – Mae angen i chi wneud cais am hyn. Dylech wneud hyn nawr.
  - ☐ Ydw – rydw i wedi gwneud cais a gwrthodwyd fy nghais. Bydd angen i chi anfon eich llythyr gwrthod gyda'ch cais.

**5.6 A fyddwch chi'n derbyn bwrsariaeth y GIG?**

- ☐ Nac ydw
- ☐ Ydw

**5.7 A yw hwn yn gwrs doethuriaeth llawn?**

- ☐ Na
- ☐ Byddaf

**5.8 A fyddwch chi'n disgwyl derbyn Cyllid Cyngor Ymchwil ar unrhyw adeg yn ystod eich cwrs cyfan?**

- ☐ Na
- ☐ Byddaf

**5.9 Ai cwrs Dysgu o Bell yw hwn?**

- ☐ Na - ewch i **5.10**
- ☐ Ie – bydd angen i chi ddweud wrthym lle y byddwch yn byw wrth i chi astudio. Gallwch adael hwn yn wag os ydych chi wedi llenwi adran 3.

Cod post

a yw hyn oherwydd eich bod chi, neu aelod o'ch teulu yr ydych yn byw gyda nhw, yn y Lluoedd Arfog?

- ☐ Nac ydy
- ☐ Ydy

## Adran 5 Newidiadau i fanylion eich cwrs

**5.10 A ydych chi'n astudio tu allan i'r Deyrnas Unedig am fwy na hanner eich cwrs cyfan?**

☐ Na – os bydd hyn yn newid mae angen i chi gysylltu â ni.

☐ Byddaf

**Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni am eich holl newidiadau.**

Nawr mae angen i chi ddarllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalen 10 cyn dychwelyd eich ffurflen.

**Os oes gennych chi ragor o newidiadau i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae angen i chi gwblhau'r adran arall (neu'r adrannau eraill) a nodoch yn Adran 1 cyn cwblhau'r amodau a thelerau.

## Adran 6 Rydw i wedi gadael fy nghwrs

! Os ydych chi eisoes wedi derbyn eich taliad cyntaf, cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg a gofyn iddynt ein cynghori am eich trosglwyddiad.

**6.1 Pryd ddigwyddodd y newid hwn?**
Os nad yw'r newid hwn wedi digwydd eto, dywedwch wrthym pryd y bydd yn digwydd.

Diwrnod ☐☐ / Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐

**6.2 Pam wnaethoch chi adael eich cwrs?**

**Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni am eich holl newidiadau.**

Nawr mae angen i chi ddarllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalen 10 cyn dychwelyd eich ffurflen.

**Os oes gennych chi ragor o newidiadau i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae angen i chi gwblhau'r adran arall (neu'r adrannau eraill) a nodoch yn Adran 1 cyn cwblhau'r amodau a thelerau.

# Adran 7 Newidiadau i swm eich benthyciad

**7.1 Faint hoffech chi ei fenthyca?**

Gallwch fenthyg hyd at uchafswm o £29,130 ar gyfer eich cwrs cyfan. Y dyddiad cau ar gyfer newid swm eich benthyciad yw naw mis o ddyddiad cyntaf blwyddyn academaidd olaf y cwrs.

☐ yr uchafswm sydd ar gael i mi

☐ swm arall? Nodwch faint

£ ☐☐☐☐☐

**Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni am eich holl newidiadau.**

Nawr mae angen i chi ddarllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalen 10 cyn dychwelyd eich ffurflen.

**Os oes gennych chi ragor o newidiadau i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae angen i chi gwblhau'r adran arall (neu'r adrannau eraill) a nodoch yn Adran 1 cyn cwblhau'r amodau a thelerau.

# Adran 8 Unrhyw newidiadau eraill

Os oes gennych chi newid arall na chaiff ei nodi yn y ffurflen hon, gallwch ddefnyddio'r dudalen hon er mwyn rhoi cymaint o fanylion ag y gallwch i ni am y newid. Byddwn yn cysylltu i gadarnhau pa gamau gweithredu neu wybodaeth sy'n angenrheidiol, os o gwbl.

**Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni am eich holl newidiadau.**

Nawr mae angen i chi ddarllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalen 10 cyn dychwelyd eich ffurflen.

**Os oes gennych chi ragor o newidiadau i roi gwybod i ni amdanynt.**

Mae angen i chi gwblhau'r adran arall (neu'r adrannau eraill) a nodoch yn Adran 1 cyn cwblhau'r amodau a thelerau.

# Telerau ac amodau

## Telerau ac amodau

Mae'r telerau ac amodau ("telerau") hyn a deddfwriaeth berthnasol yn weithredol o ran yr holl gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/26. Rwy'n deall y gallai fy nghais am gyllid i fyfyrwyr gael ei ohirio oni bai fy mod yn llofnodi a dyddio'r telerau hyn.

## Contract y Benthyciad

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau hyn a bod Canllaw i Amodau a Thelerau ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/telerau-ac-amodau**
2. Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cyllid i fyfyrwyr, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
3. Rwy'n deall fod cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu i mi gan Weinidogion Cymru (y "Rhoddwr Benthyciadau") sy'n cynnwys unrhyw bersonau yn gweithredu ar eu rhan ac unrhyw amnewidiad(au) dan adran 23(4) Deddf Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygiwyd neu amnewidiwyd o bryd i'w gilydd (y "Ddeddf").
4. Rwy'n deall y bydd y telerau hyn, y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw gyllid i fyfyrwyr a roddir mi gan y Rhoddwr Benthyciadau.
5. Rwy'n deall bod "cyllid i fyfyrwyr" yn y telerau hyn yn golygu cefnogaeth ariannol trwy grant(iau) ac/neu fenthyciad(au) a wneir gan y Rhoddwr Benthyciadau dan y rheoliadau.
6. Rwy'n deall bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ("SLC") yn cyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Rhoddwr Benthyciadau.

## Fy Ymrwymiadau

7. Rwy'n deall os ydw i:
   - (i) wedi cyrraedd 18 oed; ac
   - (ii) fy mod wedi mynd i gytundeb(au) am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf cyn i mi gyrraedd 18 oed,

   fy mod yn cytuno i "ddilysu" unrhyw a phob benthyciad myfyriwr trwy lofnodi'r telerau hyn. Mae hyn yn golygu fy mod yn cadarnhau fy mod wedi mynd i gytundeb(au) gyda'r Rhoddwr Benthyciadau ac yn cytuno i delerau unrhyw gytundeb(au) blaenorol o'r fath. Os ydw i wedi cyrraedd 18 oed ac yn gwrthod "dilysu" unrhyw gytundeb(au) blaenorol, rwy'n deall na fyddaf yn gymwys i gael unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach dan y rheoliadau.
8. Rwy'n cytuno i roi unrhyw wybodaeth i SLC y bydd angen i gefnogi'r cais yma am gyllid i fyfyrwyr ac/neu i gasglu ad-daliad.
9. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC ar unwaith s bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar fy hawl i gyllid i fyfyrwyr. Os na fyddaf yn gwneud hyn deallaf na fyddaf efallai yn cael taliadau pellach a bod posibilrwydd y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid i fyfyrwyr yr ydw i eisoes wedi'i gael. Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno fy nghais am gyllid i fyfyrwyr nes bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ad-dalu yn llawn, bod yn rhaid i mi hysbysu SLC am unrhyw newidiadau yn fy manylion personol (gan gynnwys fy rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a roddais.
10. Rwy'n cytuno os byddaf yn cael gordaliad o gyllid i fyfyrwyr, mae angen i mi ei ad-dalu'n llawn ac y gellir casglu unrhyw ordaliad o unrhyw gais pellach am gyllid i fyfyrwyr.
11. Rwy'n cytuno y byddaf yn ad-dalu'r Rhoddwr Benthyciadau unrhyw fenthyciad(au), ynghyd â phob ac unrhyw log, gosbau a thaliadau sy'n berthnasol. Rwy'n deall y bydd yr ad-daliad hwn yn ddyledus gennyf fi i'r Rhoddwr Benthyciadau fel dyled. Os byddaf yn torri unrhyw un o delerau fy menthyciad, rwy'n cytuno i dalu unrhyw gostau a chosbau perthnasol dan y Ddeddf a'r rheoliadau. Rwy'n deall y byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) trwy system dreth y Deyrnas Unedig ("DU") ac/neu y gallaf ad-dalu SLC yn uniongyrchol. Os ydw i'n byw dramor, byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) i SLC yn uniongyrchol.
12. Rwy'n cytuno fod unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi yn unol â'r rheoliadau unwaith y derbynnir fy nghais gan y Rhoddwr Benthyciadau yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r Rhoddwr Benthyciadau. Rwy'n deall fy mod yn atebol ar gyfer fy menthyciad(au) ac y codir llog arnaf o daliad cyntaf y benthyciad gan y Rhoddwr Benthyciadau.
13. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC os byddaf yn gadael y DU i fyw tu allan i'r DU neu os am ba bynnag reswm arall y byddaf tu allan i system dreth y DU am fwy na thri mis.

## Camau Cyfreithiol a Deddfau Perthnasol

14. Os bydd galw am unrhyw achos cyfreithiol, rwy'n cytuno mai deddfau Cymru a Lloegr fydd yn weithredol ac y bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Os yw fy nghyfeiriad tu allan i'r DU, bydd deddfau'r rhan o'r DU ble mae fy narparwr addysg wedi ei leoli yn berthnasol a bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Rwy'n cytuno bod gan y Rhoddwr Benthyciadau'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall gydag awdurdod.

## Rhannu Gwybodaeth

15. Os ydw i'n torri'r telerau hyn ac/neu'r rheoliadau, rwy'n cytuno y gall y Rhoddwr Benthyciadau rannu gwybodaeth amdanaf a fy nghyfrif gydag unrhyw drydydd parti yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai helpu fy lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus.
16. Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch unrhyw berson arall yn fy nghais am gyllid i fyfyrwyr, fy mod wedi gwneud hynny gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd.
17. Rwy'n deall y bydd SLC yn prosesu fy nata personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** a allai gael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

**Cyllid Amgen**

18. Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi derbyn unrhyw fenthyciad (neu fenthyciadau) yn flaenorol ar gyfer gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig dan y rheoliadau ac/neu ble darparwyd hyn allan o gronfeydd gan awdurdod arall o lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dwi'n deall y gallai'r Benthyciwr ildio'r gofyniad hwn ble nad oeddwn yn gallu cwblhau fy nghwrs oherwydd rhesymau personol cymhellol.
19. Rwy'n cadarnhau na fyddaf ar unrhyw adeg yn ystod hyd llawn fy nghwrs yn derbyn unrhyw lwfans, bwrsariaeth na ddyfarniad o ddisgrifiad tebyg gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac/neu Gyngor Ymchwil.
20. Rwy'n cadarnhau mewn perthynas â'm cwrs nad ydw i wedi fy nhalu nac wedi derbyn cyflwyniad o:
    (i) fwrsariaeth gofal iechyd; ac/neu
    (ii) unrhyw lwfans dan y Reoliadau Lwfansau Myfyriwr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007.
21. Rwy'n cadarnhau mewn perthynas â'm cwrs nad ydw i wedi fy nhalu nac wedi derbyn cyflwyniad o unrhyw lwfans, bwrsariaeth na ddyfarniad tebyg a wnaethpwyd dan adran 116(2)(a) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 na dan adran 67(4)(a) y Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac eithrio ble mae cyllid o'r fath parthed costau teithio. Rwy'n deall mai os dim ond costau teithio fydda i'n derbyn, y gallaf ymgeisio am fenthyciad.
22. Yn amodol ar baragraffau 18 - 22 uchod, rwy'n deall y bydd SLC yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i adfer ad-daliad benthyciad ble rwy'n derbyn cyllid amgen.

Cyfeirnod Cwsmer

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

Eich llofnod (mewn inc)

Dyddiad heddiw

Dydd Mis Blwyddyn

__ __ / __ __ / __ __ __ __

Ar ôl ei llenwi, a fyddech gystal â dychwelyd eich ffurflen i: **Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

# Adran 9 Cwblhau'ch ffurflen

**9.1 A ydych chi wedi dweud wrthym am yr holl newidiadau yn eich amgylchiadau?**

☐ **Nac ydw** – dylech lenwi pob adran y mae angen i chi ei llenwi, os oes gennych chi amgylchiadau ychwanegol nad ydynt yn ymddangos yn y ffurflen hon, gallwch ddefnyddio Adran 8 i ddweud wrthym amdanynt.

☐ **Ydw**

**9.2 Ydych chi wedi llofnodi a dyddio eich amodau a thelerau?**

☐ **Nac ydw** – rhaid i chi lofnodi'r amodau a thelerau, ni allwn ddiweddaru eich gwybodaeth heb hyn.

☐ **Ydw** – rydych yn barod i ddychwelyd eich ffurflen Newid mewn Amgylchiadau.

Ar ôl llenwi eich ffurflen Newid mewn Amgylchiadau, a fyddech gystal â'i dychwelyd i:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

Gwnewch yn siŵr bod yr hyn yr ydych yn ei anfon yn cael ei bwyso a bod y pris postio cywir yn cael ei dalu'n llawn.

**Cofiwch ofyn am brawf postio!**